



David Waggett  
Prif Weithredwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Municipal Offices  
Civic Centre  
Glyn Ebwy, NP23 6XB

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Mr Waggett

### **Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol**

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a gynigiais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb, ac mae'ch holl ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu wedi'u dadansoddi bellach fel ymatebion 'derbyniol'. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rydych yn datblygu fframwaith 'Ansawdd Bywyd' a fydd yn gwella gallu'r Awdurdod Lleol i ddeall a monitro ansawdd bywyd drwy goladu gwybodaeth oddi wrth y preswylwyr ynghylch agweddau ar y fframwaith (Angen Gweithredu 6.2).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chlорианну er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

### Angen Gweithredu 1.6

#### Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn cynnwys nifer o gamau ac ymrwymadau cadarnhaol y bydd yn eu cymryd i wella'r mynediad sydd gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal i eiriolaeth fel bod pobl hŷn yn gallu sicrhau eu hawliau neu sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hateb, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n hyglwyf.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod eiriolaeth ar gael pan fo cartref gofal yn cau neu mewn Pryderon Cynyddol ac y bydd yn cael ei ymgorffori ymhellach yn y broses ddiogelu. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff o eiriolaeth annibynnol.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu, am ei fod fel pe bai'n dangos diffyg ymwybyddiaeth ynghylch rôl eiriolwyr. Cyfeiriodd yr ymateb cychwynnol at y Datganiad Pwrpas yn unig (yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol). Ychydig yn unig o wybodaeth a ddarparwyd hefyd ynghylch y nifer oedd yn manteisio ar eiriolaeth ac a ydy'r lefelau cyllido cyfredol yn ddigonol. Heb yr wybodaeth yma, dydy hi ddim yn bosibl deall a ydy pobl hŷn yn gallu cael

mynediad i eiriolaeth annibynnol mewn gwirionedd fel bod eu hawliau'n gallu cael eu sicrhau a bod eu pryderon yn gallu cael eu hateb.

Rwy'n falch nodi felly fod ymateb yr Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr sy'n manylu ar amrediad ac argaeledd y ddarpariaeth gyfredol. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i adolygu ei ddarpariaeth gyfredol ar gyfer eiriolaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a dylai hyn ddangos realiti mynediad ac ansawdd y ddarpariaeth gyfredol.

Er nad ydy'r ymateb yn cyfeirio at ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol yn dilyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty a'r cyfnod pontio i gartref gofal, rwy'n disgwyl y bydd y mater hwn yn cael ei godi yn ystod adolygiad arfaethedig yr Awdurdod Lleol o'r ddarpariaeth.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

## **Angen Gweithredu 2.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn darparu trosolwg o'r amrediad o ofal amlddisgyblaeth a gwasanaethau arbenigol a ddarperir ar hyn o bryd, a'i fod hefyd yn amlinellu nifer o gamau sydd ar y gweill i wella mynediad i wasanaethau arbenigol a gofal amlddisgyblaeth. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu pedwar gwely gofal ail-alluogi canolradd ac mae wrthi'n datblygu cynllun peilot ail-alluogi mewn cynllun Gofal Ychwanegol i helpu i lywio ei ddull o weithredu ar ail-alluogi mewn cartrefi gofal.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma, oedd fel pe bai'n defnyddio dull adweithiol yn hytrach na rhagweithiol tuag at ddarparu gofal arbenigol a gwasanaethau amlddisgyblaeth i gefnogi adsefydlu. Heb yr ymrwymiad rhagweithiol yma tuag at wella a datblygu parhaus, fe fyddai pobl hŷn yn parhau i wynebu'r risg o fod yn llai symudol, yn fwy eiddil a cholli eu hannibyniaeth. Felly, rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth gan yr Awdurdod Lleol bod angen iddo ddatblygu dull llawer mwy rhagweithiol o weithredu a'i ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwmo i weithio gyda chydweithwyr lechyd i wella gwasanaethau therapi arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr ymrwymadau a'r camau hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ddeall yn well yr angen am wasanaethau o'r fath, ac yn ei dro, yn creu'r potensial i ddarparu cefnogaeth lawn i bobl hŷn, yn dilyn cyfnod o salwch sylweddol, i'w galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau rhai o'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau. Ond, rhaid imi nodi bod yna rai camau a fyddai'n elwa oddi wrth ragor o eglurder o ran amserlenni, megis bwriad yr Awdurdod Lleol i gymhwyso'r gwersi o gynllun peilot ail-alluogi mewn Cynllun Tai Cymorth Gofal Ychwanegol at gartrefi gofal.

## **Angen Gweithredu 3.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn darparu darlun llawer cliriach o'r ddarpariaeth

gyfredol. Er bod yr ymateb yn cydnabod y pwysau cyfredol ar adnoddau wrth geisio ateb y galw am hyfforddiant yn y maes hwn, mae'n dangos ymrwymiad clir i flaenoriaethu hyfforddiant dementia. Mae gan yr ymrwymiad yma, a'r camau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb, y potensial i sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn gallu deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma, sef bod yr ymateb yn tueddu i ganolbwyntio ei ateb o amgylch cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol yn hytrach nag ymateb mewn perthynas â'r holl leoliadau mewn cartrefi gofal y mae'n eu comisiynu. Mae hyn bellach wedi'i ateb ac rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn datgan bod y staff mewn cartrefi gofal ar draws y Cyngor Bwrdeistref wedi cael cynnig gofal dementia sylfaenol, ac yn gyffredinol wedi'i gymryd.

Mae'r ymateb yn cydnabod nad ydy'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant o'r fath hyd yn hyn. Ond, mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i archwiliad llawn o hyfforddiant dementia yn y dyfodol i sicrhau bod yr holl staff wedi ei dderbyn, ac y bydd yn gwirio gwerthusiadau a chofnodion goruchwylio'r staff i sicrhau bod rheolwyr cartrefi gofal yn helpu'r staff i ddatblygu sgiliau o'r fath. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Tîm Datblygu Gweithlu wedi cynhyrchu Cynllun Hyfforddi Dementia, ac fe fydd gen i ddiddordeb mawr yng nghynnydd y cynllun a'i effaith ar ansawdd bywyd pobl hŷn wrth iddo gael ei gyflwyno.

O ran y staff uwch, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi cynnig hyfforddiant Materion Gofal Dementia i ddarparwyr cartrefi gofal sydd wedi'u comisiynu. Ond, rwy'n siomedig wrth nodi mai dim ond un neu ddau o'r darparwyr sydd wedi anfon staff ar hyfforddiant, ac nad oes rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol ynghylch sut y gellid cynyddu'r nifer yma.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

## Angen Gweithredu 3.3

### Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen yma, er ei fod yn cydnabod yr heriau wrth recriwtio gwirfoddolwyr, yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio. Mae'r ymateb yn darparu manylion am gynlluniau cyfeillio sydd ar waith ar hyn o bryd mewn cartrefi gofal, fel y prosiect Gofyn a Siarad mewn Cartrefi Gofal sy'n cael ei redeg mewn cartrefi nyrsio gan y Bwrdd Iechyd a hefyd cynllun gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol mewn cartrefi gofal preswyl. Rwy'n croesawu'r cynlluniau yma ac yn cydnabod bod ganddyn nhw'r potensial i gefnogi pobl hŷn i gael cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma, sef nad oedd digon o fanylion am y camau gweithredol sy'n cael eu cymryd i annog preswylwyr a darparwyr i ddefnyddio'r cynlluniau yma. Ar ben hynny, doedd dim cyfeiriad at waith cyfeillio/pontio'r cenedlaethau a dim arwydd o sut y gallai'r Awdurdod Lleol hybu prosiectau gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol, yn ogystal â sicrhau mynediad i gymunedau diwylliannol penodol. Heb fynediad i gysylltiadau cymdeithasol, mae pobl hŷn yn wynebu'r risg o fod yn unig ac ar wahân yn gymdeithasol, ac fe allai eu gallu i arddel eu ffydd a'u harferion diwylliannol pwysig fynd ar goll.

Felly, rwy'n falch o nodi bod llawer mwy o eglurder ar y materion hyn yn ymateb terfynol yr Awdurdod Lleol, a chydabyddiaeth nad ydy cysylltiadau neu brosiectau o'r fath yn gyson ar draws yr ardal. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fonitro gwaith pontio'r cenedlaethau, mynediad i gefnogaeth yn seiliedig ar ffydd a chymunedau diwylliannol penodol yn ystod y 12 mis nesaf trwy ymweliadau monitro - ac y caiff canlyniadau'r gwaith monitro yma eu hadrodd i Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.



Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol a fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

## **Angen Gweithredu 5.6**

### **Casgliad Terfynol – Derbyniol**

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

## **Angen Gweithredu 6.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus

pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae gwybodaeth gynhwysfawr yn ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma ar y camau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cymryd i wrando ar leisiau pobl hŷn, ac i ddefnyddio hyn i sbarduno gwelliannau parhaus yn ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi disgrifio ei ddull cyfredol o gasglu gwybodaeth am ansawdd bywyd yn glir, ac mae'n cynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol, er enghraifft, defnyddio adroddiad chwarterol gan Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Age Cymru a defnyddio ymweliadau'r Tîm Comisiynu a Monitro Contractau lle holir barn y preswylwyr. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn gofyn am ganiatâd i'r Tîm Comisiynu a Monitro Contractau gael mynychu cyfarfodydd preswylwyr cartrefi gofal i wrando ar eu barn a'u profiadau.

Mae'r ymateb hefyd yn disgrifio datblygiad Fframwaith Ansawdd Bywyd a fydd yn gwella gallu'r Awdurdod Lleol i ddeall a monitro ansawdd bywyd trwy goladu gwybodaeth gan y preswylwyr ar agweddau ar y fframwaith yma.

Mae gan y dulliau a'r ymrwymadau yma y potensial i sicrhau bod barn pobl hŷn am eu gofal a'u hansawdd bywyd yn cael ei chasglu a'i rhannu yn rheolaidd ac yn cael ei defnyddio i sbarduno gwelliannau parhaus. Er nad oes yna amserlen glir, mae sicrwydd manwl wedi'i roi ynghylch sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu coladu gwybodaeth am ansawdd bywyd, sy'n awgrymu bod amserlenni mewnol yn bodoli.

## **Angen Gweithredu 6.7**

### **Casgliad Cychwynnol – Derbyniol**

6.7 Datganiadau Ansawdd Blyneddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.